



Cylchlythyr Tymor y Cynhaeaf 2010

Dymunwn gyfarchion cynnes wrth i eglwysi drwy Gymru lawenhau yn ystod ein cyfnod o ddiolchgarwch. Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn achos i Cytûn roi diolch a mawl.

Yn gyntaf, gwahoddiad arbennig wrth i ni edrych tuag at y dyfodol

Gwahoddiad Arbennig

Caiff Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Grŵp Galluogi Cytûn ei gynnal yn Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno o 11.30 a.m. ar Ddydd Mercher, Hydref 19. Gwahoddir grwpiau Cytûn lleol a rhanbarthol a chynghorau eglwysi i ddanfôn cynrychiolydd i fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Yn dilyn busnes arferol y Cyfarfod yn ystod y bore, bydd sesiwn y prynhawn yn trafod sut gall Cymru ddod yn "Genedl Lloches" gan ganolbwyntio ar ofal pobl a ddadleolwyd.



Bydd cyfarfod y prynhawn hefyd yn trafod y Memorandwm Dealltwriaeth drafft canlynol gyda Chynghorau Eciwmenaid Lleol a Rhanbarthol, Partneriaethau a Phrojectau.

'Mae Cytûn yn ymgymryd i annog a gweddïo dros gynghorau, partneriaethau a phrojectau eciwmenaid rhanbarthol a lleol ac i roi cymorth, tra bo trefniadau staff presennol ac adnoddau ariannol ar gael, drwy:

- geisio sicrhau bod y Grŵp Galluogi yn gallu hidlo blaenoriaethau lleol a rhanbarthol mewn i Gynllun Gwaith Cytûn fel y cytunwyd gan y Bwrdd,
- gyfathrebu'n rheolaidd drwy gylchlythyrau chwarterol a phapurau enwadol,
- ddarparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau unigol a gynhelir yn lleol yn enw Cytûn gydag ymwybyddiaeth a chytundeb ysgrifenedig y swyddfa genedlaethol,
- amlygu datblygiadau eciwmenaid arwyddocaol fel ffordd o anogaeth,
- ddarparu cymorth gweinyddol cychwynnol a chynghor wrth ddrafftio trefniadau eciwmenaid lleol, cyrff noddi a memoranda dealltwriaeth rhwng aelod eglwysi ac enwadau,

- ddarparu, o fewn moddau rhesymol, siaradwyr ar gyfer cyfarfodydd a gwasanaethau eciwmenaidd,
- ddarparu cymorth cychwynnol a chyngor ynglŷn â materion cyhoeddus lleol neu ranbarthol sydd wedi cael eu datganoli ac sydd yn fater o fusnes eciwmenaidd cyffredinol,
- helpu i drefnu ymweliadau eglwysig i adeilad y *Senedd* ym Mae Caerdydd,
- gyfleu gwybodaeth gan grŵp cynllunio brys Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Cytûn yn gofyn i gynghorau, partneriaethau a phrojectau eciwmenaidd lleol a rhanbarthol i annog a gweddïo dros offeryn eciwmenaidd cenedlaethol Cymru ac i roi cymorth, lle'n bosibl, drwy:

- geisio dosbarthu cylchlythyrau a gwybodaeth eciwmenaidd yn effeithiol,
- geisio galluogi Cytûn i ddysgu o ymarfer da ac i amlygu newyddion o weithgarwch eciwmenaidd lleol ac arwyddocaol,
- geisio helpu Grŵp Galluogi Cytûn drwy ymdrechu i lunio ei agenda a goleuo ei ddadleuon.

Bydd y cyfarfod hefyd yn trafod y modd gorau gellir gwahodd grwpiau lleol a rhanbarthol i ddod yn aelodau ffurfiol o Grŵp Galluogi Cytûn yn ystod y misoedd nesaf. **Gofynnir i'r sawl sy'n dymuno dod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol i gysylltu â Swyddfa Cytûn erbyn Dydd Mercher, Hydref 13.**

Uchafbwyntiau Diweddar

Yn ddiweddar, gweithiodd Cytûn gydag Abaty San Steffan i helpu sicrhau bod Cymru wedi ei gynrychioli'n dda yn ystod y Gosber a gynhaliwyd ar Fedi 17 i groesawu'r Pab Bened i'r DU. Cafwyd gwahoddiad gan yr Abaty i Aelodau Bwrdd Cytûn a chynrychiolwyr o'n Rhwydweithiau Rhyngwladol a Chyfiawnder Hiliol.

Cyfnod o Ddiolchgarwch

Wrth adeiladu ar ein llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, yn Llanerchaeron, roedd yn fendigedig i weld cymaint yn dod i babell yr eglwysi yn ystod y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy. Roedd yna ymdeimlad cryf o ddod ynghyd ac o ddathlu. Yn ystod y digwyddiadau cenedlaethol hyn, cafodd Cytûn y cyfle i amlygu sawl agwedd o waith yr eglwysi a'u cenhadaeth. Caiff rhai eu rhestri yma ...



Yn ystod y Sioe Frenhinol, lansiodd yr Eglwys yng Nghymru ei Ganolbwynt Materion Gwledig wrth i'r Esgob John Davies gyflwyno copi i Elin Jones, sef Gweinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd y both ei seilio ar adborth gan Ymgynghorwyr Bywyd Gwledig yr Eglwys a'r clerigwyr sydd yn gwasanaethu mewn plwyfi gwledig. Mae'n

anelu i ddod â phobl at ei gilydd er mwyn dod o hyd i ffyrdd cadarn a chreadigol i adfywio cymunedau gwledig.

Roedd Cytûn hefyd yn gallu rhoi sylw i waith amhrisiadwy Cymorth Cristnogol drwy roi lle i gartref Jeremiah Mouli - gan ddangos sut mae yn y byd sy'n datblygu yn byw.

Rhown ddiolch hefyd am waith Ymgynghorwyr Bywyd Gwledig yr Eglwysi. Yn dilyn y Sioe Frenhinol, cafwyd adroddiad 'nôl ganddyn nhw ar eu gwaith i Fwrdd Cytûn ym mis Medi.

Mae gan Cytûn ddyled fawr i eglwysi Glyn Ebwy a'r cylch lleol am eu gwaith rhagorol yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Rhown ddiolch nid yn unig am y gyfeillach gyfoethog rydym ni i gyd wedi ei fwynhau a'r cyd-addoli ond am yr holl waith caled ymarferol wnaethon nhw wrth baratoi lluniaeth a sicrhau fod y babell wedi ei addurno a'i gynnal yn dda. Gan ein bod yn gorff eciwmenaidd, cenedlaethol, dwyieithog, roedd hi hefyd yn galonogol gweld y ddwy gymuned ieithyddol yn gweithio gyda'i gilydd.

Rhown ddiolch i Dduw am y bendithion cyfoethog a gawsom eleni a gofynnwn am eich gweddiâu wrth i ni geisio darparu llwyfan ar gyfer gwaith yr eglwysi wrth dystiolaethu a darparu gofal bugeiliol yn y digwyddiadau cenedlaethol hyn yn y dyfodol. Byddwch cystal â gweddio dros Rhian Linecar wrth iddi arwain ar ran staff Cytûn parthed y gwaith yma.

Adeiladu tuag at y dyfodol - Ffydd a Threfn

Mae staff Cytûn wedi parhau i gefnogi gwaith yr aelod eglwysi drwy fynychu'r synodau, cymanfaoedd cyffredinol a chyrrff llywodraethol sydd yn canolbwyntio yn arbennig ar faterion eciwmenaidd.

Mae'n galonogol i wybod bod nifer o aelod eglwysi ac enwadau Cytûn o fewn yr Eglwysi Cyfamodol wedi cytuno i barhau gyda'u cefnogaeth i'r Comisiwn. Rhoddwyd argymhellion penodol o flaen yr eglwysi a byddant yn meddwl yn ddwys amdany'n nhw yn ystod y misoedd nesaf gan ganolbwyntio ar weinidogaeth, projectau lleol a litwrgïau newydd.

Dechreuwyd ar y gwaith hefyd o gasglu fersiynau enwadol o Ddatganiad o Groeso Eciwmenaidd ac Ymrwymiad i'w defnyddio yng Nghymru.

Adeiladu ar gyfer y dyfodol - Eglwys a Chymdeithas

Dydy'r Cynulliad Cenedlaethol na Senedd y DU yn cyfarfod yn ystod misoedd yr haf. Fod bynnag, mae prosesau llywodraeth yn parhau ar frys.

Mae ein Swyddog Polisi, Geraint Hopkins, wedi canolbwyntio, yn enwedig yn ystod yr wythnosau diwethaf ar alluogi'r eglwysi i ymateb i ymgynghoriad gan yr Adran Ddiwylliant a Cadw ar ddyfodol y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig, a rhagolygon toriadau yng nghanol y flwyddyn i'r cynllun. Mae ymdrech ar y cyd ar y gweill gan Grŵp Ymgynghorwyr Eiddo Eglwysi Cytûn, a drafododd y pwnc yn ei gyfarfod diwethaf.

Yn gyffredinol, mae'n gytunedig ymhlith cymunedau ffydd fod y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn ffynhonnell o gymorth hanfodol i'r rhai sy'n gofalu am fannau addoli rhestredig. Gellir ei ddeall yn hawdd ac mae'n syml i'w weithredu ac yn ffynhonnell o gymorth i bob adeilad rhestredig. Mae'n annog trwsio yn hytrach na newid. Dyna'r farn sydd ar hyn o bryd yn cael ei roi i'r llywodraeth, ac fe arhoswn gyda pheth pryder am gyhoeddiadau ynglŷn â dyfodol y ffrydiau ariannu hanfodol hyn i'r eglwysi.

Mae Cytûn hefyd wedi parhau i wasanaethu cymunedau ffydd Cymru drwy gyfrannu at waith Cyfarfodydd Cyd-nerthu Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd yn ceisio paratoi ar gyfer argyfyngau cenedlaethol. Gwnaed cyfraniad eisoes tuag at baratodau ar gyfer Cwpan Ryder.

Bu Geraint hefyd yn weithgar wrth baratoi ar gyfer Cwrs Croeso i Gymru Cytûn.

Popeth yn Gyffredin: Ond gair bach i gloi. Mae'r deunydd ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol yn barod ac ar gael ar y we ar safle Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.

Pob Bendith,



Y Parchedig Aled Edwards OBE
Prif Weithredwr Cytûn

Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3UR 029 2046 4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Cyfyngedig" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071